*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*
***RHONDDA CYNON TAF***
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR**

C Hanagan
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt**:** Kate Spence - Gwasanaethau Democrataidd (07747485566)

Bydd cyfarfod hybrid o'r **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** yn cael ei gynnal ar **DYDD IAU, 20FED HYDREF, 2022** am **3.00 PM.**

Bwriedir i'r cyfarfod yma gael ei weddarlledu'n fyw, mae rhagor o fanylion am hyn yma

MAE MODD I AELODAU NAD YDYN NHW'N AELODAU O'R PWYLLGOR AC AELODAU O'R CYHOEDD OFYN I ANNERCH Y PWYLLGOR YN YSTOD Y CYFARFOD SY'N YMWNEUD Â'R MATER SYDD WEDI'I NODI. RYDYN NI'N GOFYN EICH BOD CHI'N RHOI GWYBOD AM EICH BWRIAD I SIARAD DRWY E-BOSTIO **GWASANAETHAUCYNLLUNIO@RCTCBC.GOV.UK** ERBYN 5PM AR DYDD MAWRTH, 18 HYDREF 2022, GAN NODI A FYDDWCH CHI'N SIARAD YN GYMRAEG NEU'N SAESNEG.

MAE'N BOSIB BYDD TREFN YR AGENDA'N NEWID ER MWYN HWYLUSO BUSNES Y PWYLLGOR.

## AGENDA

**Tudalennau**

### 1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

**Nodwch:**

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2. DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU**

Nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, pan fyddan nhw'n trafod y materion rheoli datblygu ger eu bron, roi ystyriaeth i'r Cynllun Datblygu a, cyn belled â'u bod yn berthnasol, i geisiadau ac i ystyriaethau eraill. Pan fyddan nhw'n gwneud penderfyniadau, rhaid i Aelodau sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu'n groes i'r Confensiwn ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

**3. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

Nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

**4. COFNODION 08.09.22**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 8 Medi 2022 yn rhai cywir.

**7 - 16**

**CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU CYMERADWYO GAN Y CYFARWYDDWR MATERION FFYNIANT A DATBLYGU**

**5. CAIS RHIF: 21/0855**

Cais i gymeradwyo materion wedi'u cadw'n ôl (ymddangosiad, tirlunio, cynllun, mynediad a graddfa) mewn perthynas â 15 annedd a gwaith cysylltiedig (yn unol â chaniatâd cynllunio amlinellol: 17/0195) (Derbyniwyd cynlluniau diwygiedig ar 20/08/21) (Derbyniwyd Adolygiad Ecolegol ar 24/03/22) (Derbyniwyd Cynllun Safle diwygiedig ar 30/05/22) **TIR Y TU ÔL I DERAS SIÔN, RHES Y GORON, CWM-BACH, ABERDÂR**

**17 - 34**

**6. CAIS RHIF: 22/0343**

Adeiladu adeilad swyddfa deulawr newydd ac adeilad porthdy unllawr. **UNED D A C, PUROLITE INTERNATIONAL LTD, PARC BUSNES LLANTRISANT, LLANTRISANT, PONT-Y-CLUN, CF72 8LF.**

**35 - 48**

**7. CAIS RHIF: 22/0533**

Caniatâd cynllunio amlinellol gyda'r holl faterion wedi'u cadw'n ôl ac eithrio mynediad ar gyfer adeiladu hyd at 765 o fetrau sgwâr o adeiladau diwydiannol (B1 / B2 / B8 hyblyg), cyfleusterau parcio,

draenio a gwaith cysylltiedig (derbyniwyd cynlluniau wedi'u diweddaru ar 23/08/22) **TIR YN YSTAD BRYNGELLI, LÔN Y DDÔL, HIRWAUN.**

**49 - 70**

**8. CAIS RHIF: 22/0600**

Symud deunydd pwll glo o domen uchaf Llanwynno i safle ger tomen Tylorstown, sy'n cynnwys creu tirffurf newydd a gwaith ailbroffilio/sefydlogi safle'r domen uchaf, yn ogystal â draeniau newydd, creu/gwella llwybrau mynediad, aildyfu llystyfiant a gwaith cysylltiedig. **TIR YN NHOMEN UCHAF LLANWYNNO A THIR Y TU ÔL I DOMEN TYLORSTOWN, TYLORSTOWN, CF43 4UF**

**71 - 94**

**9. CAIS RHIF: 22/0810**

Annedd 5 ystafell wely, garej ynghlwm, man ychwanegol i barcio ceir. **HEULWEN DEG, BYTHYNNOD Y GRAIG, GRAIG-WEN, PONTYPRIDD, CF37 2EF**

**95 - 110**

**10. CAIS RHIF: 22/0910**

Amrywio amod 2 (cynlluniau wedi'u cymeradwyo) o ganiatâd cynllunio 22/0028/08 i wneud mân ddiwygiadau i ddyluniad wynebau'r adeilad a champfa newydd i'r chweched dosbarth, ac i'r cynllun tirlunio. **YSGOL GYFUN BRYNCELYNNOG, HEOL PENYCOEDCAE, BEDDAU, PONTYPRIDD, CF38 2AE**

**111 - 122**

**11. CAIS RHIF: 22/0991**

Amrywio amod 2 o ganiatâd cynllunio 21/0005/08, i ddarparu mynediad y Blynyddoedd Cynnar ar wahân i'r gât bresennol ar Fryn Bethania, gyda gwaith gwella'r briffordd cysylltiedig **YSGOL GYNRADD CWMLAI, HEOL PENYGARREG, TONYREFAIL, PORTH, CF39 8AS.**

**123 - 134**

**12. CAIS RHIF: 22/1041**

Garej â tho gwastad gyda gwaith cysylltiedig **109 TŶ RHIW, TŶ RHIW, FFYNNON TAF, CAERDYDD, CF15 7RW.**

**135 - 142**

**<u>CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU GWRTHOD GAN Y CYFARWYDDWR MATERION FFYNIANT A DATBLYGU</u>**

**13. CAIS RHIF: 22/0783**

Cadw newidiadau presennol i'r ardd gefn (grisiau a deciau canol). Ailgyflwyno 21/0923/10. **3 PLEASANT HEIGHTS, PORTH, CF39 0LZ.**

**143 - 148**

**CEISIADAU WEDI'U GOHIRIO**

**14. CAIS RHIF: 21/0942**

Ehangu ffin yr ardd a chreu ardal barcio, gosod gatiau mynediad pren a waliau terfyn newydd â blociau (derbyniwyd cynlluniau diwygiedig a disgrifiad ar 07/08/2022) **MERRIVALE, FFORDD LLWYDCOED, LLWYDCOED, ABERDÂR, CF44 0TW.**

**149 - 160**

**15. CAIS RHIF: 21/1283**

Newid defnydd y llawr gwaelod o Ddosbarth Defnydd A2 (Swyddfa Fetio) i Ddosbarth Defnydd A3 (Siop Gludfwyd) a gosod ffliw echdynnu ar gefn yr eiddo ar gyfer y defnydd newydd (Derbyniwyd Cynlluniau Diwygiedig ar 01/11/21) (Derbyniwyd yr Asesiad Sŵn ac Arogl ar 01/02/22) **LADBROKES PLC, 45 HEOL YNYS-HIR, YNYS-HIR, PORTH, CF39 0EL.**

**161 - 172**

**16. CAIS RHIF: 22/0492/10**

Ardal barcio (ôl-weithredol) a mynediad cwrb isel dros lwybr troed cyhoeddus. **36 HEOL ABER-RHONDDA, PORTH, CF39 0BB**

**173 - 184**

**ADRODDIAD ER GWYBODAETH**

**17. GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Rhoi gwybod i'r Aelodau am y canlynol, ar gyfer y cyfnod 26/09/2022 – 07/10/2022

Penderfyniadau Cynllunio a Gorfodi – Apeliadau a Dderbyniwyd.
Penderfyniadau Dirprwyedig – Ceisiadau wedi'u cymeradwyo a'u gwrthod gyda rhesymau.
Trosolwg o Achosion Gorfodi.
Penderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig.

**185 - 198**

**18. MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

**Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu**

**Cylchrediad: -**

**Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu:**

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu
(Y Cynghorydd S Rees a Y Cynghorydd W Lewis)

Y Cynghorydd J Bonetto, Y Cynghorydd D Grehan, Y Cynghorydd G Hughes,
Y Cynghorydd C Middle, Y Cynghorydd W Owen, Y Cynghorydd J Smith,
Y Cynghorydd L A Tomkinson, Y Cynghorydd R Williams ac
Y Cynghorydd G Hopkins

Pennaeth Cynllunio
Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Uwch Beiriannydd